AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

# Ymddygiadau teithio: prif ganlyniadau Mawrth i Awst 2025 (dros dro)

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r chwe mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025/26 (ATCC). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 3,000 o ymatebion a 9,000 o deithiau a gofnodwyd o bob cwr o Gymru. Ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu yw'r data hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ymddygiadau teithio. Wrth hyn, rydym yn golygu'r patrymau a'r dewisiadau teithio gwirioneddol a wnaeth yr ymatebwyr. Cofnodwyd hyn mewn dyddiadur teithio ôl-weithredol deuddydd, lle gofynnwyd i'r ymatebwyr sut, pam, pryd a ble y gwnaethon nhw deithio.

Mae ATCC yn arolwg newydd, a'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf i Gymru ers 2012. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Gallai gwahaniaethau fod oherwydd diffiniadau gwahanol a ddefnyddir, methodolegau arolwg gwahanol neu wahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd o setiau sampl o fis Mawrth i fis Awst 2025. O'r herwydd, gallant gael eu heffeithio gan batrymau tymhorol mewn ymddygiad teithio. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ansawdd yn ein Hadroddiad Ansawdd.

Defnyddiwyd nifer o dermau penodol i drafnidiaeth yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi cynhyrchu dogfen ddiffiniadau i gynorthwyo dealltwriaeth.

## Prif ganfyddiadau

- Gwnaed 73.6% o deithiau mewn car, naill ai fel y gyrrwr (59.8%) neu fel teithiwr (13.8%).
- Gwnaed 17.7% o deithiau drwy gerdded ac olwynio a 2.0% gan ddefnyddio beic (19.6% gan ddefnyddio dulliau teithio llesol).
- Roedd 3.7% o deithiau ar fws ac 1.9% ar y rheilffordd (5.6% ar drafnidiaeth gyhoeddus).
- Roedd 10.8% o'r holl deithiau yn aml-ddull, lle defnyddiwyd dau ddull teithio neu fwy.
- Defnyddiwyd teithiau a oedd yn cyfuno bws neu drên, mewn unrhyw drefn, mewn 2.3% yn unig o deithiau aml-ddull.
- Dychwelyd adref (28.7%), teithio i'r gwaith neu'n ôl (21.1%) a siopa (14.1%) oedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros deithio.
- Ar gyfartaledd, teithiodd unigolion 10,433.6km y flwyddyn, neu 16.6km fesul taith.


# Cyfran y prif ddull teithio

Mae'r prif ddull teithio yn cyfeirio at y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y pellter hiraf mewn taith. Cyfran y dull yw canran y teithiau fesul person y flwyddyn a gwblheir gan brif ddull teithio penodol.

- Y car oedd y prif ddull teithio mwyaf cyffredin, a ddefnyddiwyd mewn 73.6% o'r holl deithiau. Roedd 59.8% o'r holl deithiau fel gyrrwr car, gyda 13.8% pellach fel teithiwr.
- Mewn 17.7% o deithiau, y prif ddull teithio oedd cerdded ac olwynio, sef yr ail ddull teithio a ddefnyddiwyd fwyaf.
- Gwnaed 2.0% o deithiau ar feic, sy'n golygu bod 19.6% o deithiau wedi'u gwneud trwy ddull teithio llesol (cerdded, olwynio neu feicio).
- Defnyddiwyd trafnidiaeth gyhoeddus fel y prif ddull teithio ar gyfer 5.6% o deithiau. Roedd teithiau bws (3.7%) yn fwy cyffredin na theithiau ar y trên (1.9%).
- Dulliau teithio cynaliadwy, a ddiffinnir fel teithiau gan ddefnyddio naill ai trafnidiaeth gyhoeddus neu ddulliau teithio llesol, oedd y prif ddull teithio mewn 25.2% o'r holl deithiau.
- Defnyddiwyd tacsis (0.9%) a dulliau teithio eraill (0.3%) yn llai aml.

## Cyfran y prif ddull teithio, yn genedlaethol

Ffigur 1: Cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl prif ddull teithio, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 1: Gwnaed 59.8% o deithiau fesul person y flwyddyn fel gyrrwr car. Gwnaed 17.7% o deithiau trwy gerdded ac olwynio, gyda dulliau eraill yn cael eu defnyddio'n llai aml.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Cyfran y prif ddull

Nodyn: Cyfrifwyd canrannau heb gynnwys ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" wrth ateb pa ddull teithio a ddefnyddiwyd ganddynt.


# Cyfran y prif ddull yn ôl rhanbarthau Cymru

Mae data rhanbarthol yn seiliedig ar y rhanbarth lle mae'r unigolyn yn byw, yn hytrach na lle digwyddodd y daith.

- Roedd gan drigolion Canolbarth Cymru y gyfran uchaf o deithiau mewn car (78.7%) ar draws y pedwar rhanbarth.
- Pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru a wnaeth y lleiaf o deithiau drwy gerdded ac olwynio (14.1%) ond nhw a gofnododd y gyfran uchaf o deithiau ar fws (4.1%).
- Roedd gan drigolion De-ddwyrain Cymru y gyfran uchaf o deithiau drwy deithio llesol (21.8%) a thrafnidiaeth gyhoeddus (6.4%), sy'n golygu bod cyfran y teithiau a wnaed drwy ddulliau teithio cynaliadwy yn 28.2%, yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 25.2%.
- Roedd gan drigolion yn Ne-orllewin Cymru y gyfran isaf o ran dulliau teithio ar y rheilffordd ymhlith y pedwar rhanbarth, gyda dim ond 0.8% o deithiau wedi'u gwneud ar y rheilffordd.

## Cyfran y prif ddull teithio yn genedlaethol ac yn rhanbarthol: teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus

Ffigur 2: Cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn, yn ôl teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus: yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 2: De-ddwyrain Cymru oedd â'r gyfran uchaf o deithiau trwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus tra bod Gogledd Cymru â'r gyfran isaf. Defnyddir teithio llesol yn fwy cyffredin na thrafnidiaeth gyhoeddus ar draws pob rhanbarth.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho data: Cyfran y prif ddull

Nodyn: Cyfrifwyd canrannau heb gynnwys ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" wrth ateb pa ddull teithio a ddefnyddiwyd ganddynt.

# Teithiau aml-ddull

Taith aml-ddull yw lle defnyddir dau ddull teithio neu fwy ar gyfer un daith. Y prif ddull yw'r dull teithio a ddefnyddir ar gyfer y pellter hiraf o'r daith. Diffinnir dulliau eraill a ddefnyddir fel rhan o'r daith fel dulliau ychwanegol. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am deithiau aml-ddull yn ein diffiniadau.

- Roedd 10.8% o'r holl deithiau yn deithiau aml-ddull (67.9 o deithiau fesul person y flwyddyn).
- Y prif ddull teithio mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd mewn teithiau aml-ddull oedd car, naill ai fel gyrrwr neu deithiwr. Defnyddiwyd hwn fel y prif ddull teithio mewn 38.3% o deithiau aml-ddull. Defnyddiwyd bws fel y prif ddull mewn 33.0% o deithiau aml-ddull a defnyddiwyd y rheilffordd fel y prif ddull mewn 17.6% o deithiau aml-ddull.
- Y dull teithio ychwanegol a ddefnyddiwyd amlaf oedd cerdded ac olwynio, a ddefnyddiwyd mewn 71.8% o'r holl deithiau aml-ddull. Bws oedd y dull teithio ychwanegol mewn 12.1% o deithiau a defnyddiwyd car mewn 11.5% o deithiau fel dull teithio ychwanegol.
- Y cyfuniad mwyaf cyffredin o ddulliau oedd bws a cherdded neu olwynio. Defnyddiwyd y cyfuniad hwn mewn 35.1% o deithiau aml-ddull, naill ai fel y prif ddull neu'r dull ychwanegol. Mae cyfuniad o gerdded neu olwynio, a theithiau car yn nodwedd mewn 28.6% o deithiau aml-ddull, gyda thrên a char yn cael eu defnyddio mewn 10.1% o deithiau aml-ddull.
- Defnyddiwyd teithiau sy'n cyfuno bws a thrên mewn 2.3% yn unig o deithiau aml-ddull, neu 1.6 taith fesul person y flwyddyn.
- Yn ôl pellter, roedd 28.7% o deithiau aml-ddull rhwng 1km a 5km. Roedd 20.3% pellach rhwng 5km a 10km, 17.0% rhwng 10km a 20km, a 18.7% rhwng 20km a 50km.
- Y pellter teithio cyfartalog pan ddefnyddiwyd dau ddull teithio neu fwy oedd 28.0km.


# Cyfran y teithiau gan bob dull teithio a ddefnyddiwyd

Mae cyfran y teithiau gan ddefnyddio pob dull teithio a ddefnyddiwyd yn cyfuno cyfran y teithiau fel y prif ddull ac fel dull teithio ychwanegol. Mae'n cynnwys teithiau un dull a theithiau aml-ddull. O'r herwydd, bydd cyfanswm y cyfrannau'n fwy na 100%.

- Defnyddiwyd car (naill ai fel gyrrwr neu deithiwr) mewn 74.9% o'r holl deithiau, naill ai fel y prif ddull teithio (73.6%) neu fel dull teithio ychwanegol (1.2%). Dyma oedd y dull teithio a ddefnyddiwyd amlaf.
- Defnyddiwyd cerdded ac olwynio fel dull teithio mewn 25.4% o'r holl deithiau, 17.7% fel y prif ddull a 7.8% fel dull teithio ychwanegol.
- Defnyddiwyd bws mewn 5.0% o deithiau (3.7% fel y prif ddull, 1.3% fel dull ychwanegol), a defnyddiwyd rheilffordd mewn 2.5% o deithiau (1.9% fel y prif ddull, 0.6% fel dull ychwanegol)

## Cyfran y teithiau yn ôl y prif ddulliau teithio a’r dulliau teithio ychwanegol a ddefnyddiwyd

Ffigur 3: Cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl y prif ddulliau teithio a’r dulliau teithio ychwanegol a ddefnyddiwyd, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 3: Teithiau trwy gerdded ac olwynio oedd y dull ychwanegol a ddefnyddiwyd amlaf, ond teithiau car (naill ai fel y gyrrwr neu'r teithiwr) oedd y dull teithio mwyaf cyffredin o hyd.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho’r data: Teithiau aml-ddull

Nodyn 1: Gall ymatebwyr ddefnyddio dulliau teithio lluosog mewn un daith, felly gall y cyfansymiau fod yn fwy na 100%.

Nodyn 2: Cyfrifwyd canrannau heb gynnwys ymatebwyr a ddewisodd “Ddim yn gwybod” neu “Mae’n well gen i beidio â dweud” wrth ateb pa ddull teithio a ddefnyddiwyd ganddynt.

# Pellteroedd teithio

Ar gyfer dulliau teithio nad ydynt yn deithiau ar y rheilffordd, pellter y daith yw hyd y llwybr mwyaf uniongyrchol posibl rhwng y tarddiad a'r gyrchfan. Nid "fel yr hed y frân" yw pellter taith.

Ar gyfer teithiau ar y rheilffordd, defnyddir y pellter byrraf rhwng dwy orsaf reilffordd. Mae'r cyfanswm pellter hefyd yn cynnwys y llwybr mwyaf uniongyrchol posibl o darddiad y daith i'r orsaf reilffordd wreiddiol, ac o'r orsaf reilffordd gyrchfan i gyrchfan derfynol y daith. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn ein diffiniadau.

- Ar gyfartaledd, roedd pobl yng Nghymru yn teithio 10,433.6km fesul person y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i hyd taith gyfartalog o 16.6km.

## Cyfanswm y pellter a deithiwyd yn ôl dull teithio


- Teithiwyd y rhan fwyaf o'r pellter mewn car, sef cyfanswm o 8,758.2km fesul person y flwyddyn. Gyrrodd unigolion 6,814.1km y flwyddyn, gyda 1,942.6km pellach fel teithiwr. Sylwch nad yw'r rhain yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd bod ymatebwyr wedi dewis "Ddim yn gwybod" neu "Gwell gen i beidio â dweud" i'r cwestiwn am y gyrrwr neu'r teithiwr.
- Cyfanswm y teithiau rheilffordd oedd 890.5km fesul person y flwyddyn. Teithiodd pobl 394.1km fesul person y flwyddyn ar fws, sy'n golygu bod cyfanswm y pellter a deithiwyd fesul person y flwyddyn ar drafnidiaeth gyhoeddus yn 1,284.6km.
- Yn groes i hynny, roedd teithiau trwy deithio llesol yn cwmpasu cyfartaledd o 288.4km fesul person y flwyddyn (187.3km trwy gerdded ac olwynio, 101.2km ar feic). Er bod cyfran uwch o deithiau, defnyddir dulliau teithio llesol i deithio pellteroedd llawer llai na thrafnidiaeth gyhoeddus oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer teithiau byrrach fel arfer.

## Pellter teithio cyfartalog yn ôl dulliau teithio

- Teithiau a wnaed drwy gerdded ac olwynio oedd â'r pellter cyfartalog byrraf, gyda hyd taith gyfartalog o 1.7km.
- Roedd teithiau beic ar gyfartaledd yn 8.2km o hyd.
- Hyd cyfartalog teithiau mewn car oedd 18.9km. Roedd teithiau fel teithiwr fel arfer yn hirach (22.3km) na’r rhai fel gyrrwr (18.1km).
- Hyd cyfartalog taith ar fws oedd 16.9km. Teithiau rheilffordd oedd â'r pellter cyfartalog hiraf a deithiwyd, gyda hyd cyfartalog o 74.1km.

## Cyfran y teithiau a chyfanswm y pellter a deithiwyd yn ôl dull teithio

Ffigur 4: Cymharu cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn a chyfanswm y pellter a deithiwyd yn ôl y prif ddull, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 4: Defnyddiwyd car fel y prif ddull teithio mewn 73.6% o deithiau, ac mae'n cyfrif am 83.9% o gyfanswm y pellter a deithiwyd. Mewn cyferbyniad â hyn, defnyddir dulliau teithio llesol ar gyfer 19.6% o deithiau a 2.8% o'r pellter a deithiwyd.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Pellteroedd teithio


Nodyn: Cyfrifwyd canrannau heb gynnwys ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" wrth ateb pa ddull teithio a ddefnyddiwyd ganddynt.

# Cyfran y dull teithio yn ôl pellter a deithiwyd

- Roedd bron i hanner yr holl deithiau a wnaed (46.2%) o dan 5km. Roedd 12.1% o'r teithiau a gofnodwyd yn llai nag 1km o hyd, gyda 34.1% o'r teithiau rhwng 1km a 5km.
- Roedd 74.2% o deithiau o dan 1km yn defnyddio cerdded ac olwynio fel y prif ddull teithio, y dull mwyaf cyffredin ymhlith teithiau byr iawn.
- Ar gyfer pob grŵp pellter uwchlaw 1km, car (naill ai fel gyrrwr neu deithiwr) oedd y dull teithio a ddefnyddiwyd amlaf.

## Cyfran y teithiau a'r pellter a deithiwyd, yn ôl dull teithio

Ffigur 5: Cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl prif ddull teithio a phellter a deithiwyd, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 5: Mae 93.1% o deithiau trwy deithio llesol o dan 5km o hyd. Mewn cyferbyniad â hyn, mae teithiau mewn car (naill ai fel y gyrrwr neu'r teithiwr) neu ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi'u gwasgaru'n fwy cyfartal rhwng pellteroedd o 1km i 50km.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Pellteroedd teithio

Nodyn: Cyfrifwyd canrannau heb gynnwys ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" wrth ateb pa ddull teithio a ddefnyddiwyd ganddynt.

# Dibenion y daith

Diben y daith yw'r prif reswm pam roedd ymatebydd yn teithio. Yn aml, mae hyn yn seiliedig ar y gweithgaredd a wneir ar ddechrau'r daith neu wrth gyrraedd y gyrchfan. Mae teithiau at ddibenion hamdden yn unig, lle mae'r weithred o deithio yn weithgaredd hamdden neu bleser (er enghraifft, mynd i redeg neu wneud chwaraeon) wedi'u heithrio. Mae hyn yn cyd-fynd â diffiniad Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol o deithiau cyfleustodau.


Mae'r daith i gyrchfan lle mae gweithgaredd hamdden neu bleser yn cael ei wneud (er enghraifft, teithio i'r gampfa neu i barc i wneud chwaraeon) wedi'i chynnwys. Mae rhagor o wybodaeth am ba deithiau sy'n cael eu cynnwys i'w chael yn ein diffiniadau.

- Y diben mwyaf cyffredin ar gyfer y daith oedd dychwelyd adref o leoliad (28.7%). Yna roedd teithiau i'r gwaith neu oddi yno (21.1%), siopa (14.1%) a chymdeithasu neu adloniant (11.8%).

- Gwyliau neu daith undydd oedd y pwrpas gyda'r pellter cyfartalog hiraf (49.2km). Roedd y teithiau hyn yn llai cyffredin, gan gyfrif am 3.0% yn unig o'r holl deithiau.

## Cyfran y teithiau yn ôl diben

Ffigur 6: Cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl prif ddiben y daith, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 6: Roedd mwy na thri chwarter o'r teithiau ar gyfer un o bedwar diben: Dychwelyd adref, cymudo, siopa neu gymdeithasu ac adloniant. Roedd dibenion eraill yn llai cyffredin.


Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Dibenion y daith

Nodyn: Cyfrifwyd canrannau heb gynnwys ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" wrth ateb beth oedd diben eu taith.

## Cyfran y dibenion teithio mwyaf poblogaidd yn ôl y prif ddull teithio

Ffigur 7: Cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl diben a phrif ddull teithio, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 7: Teithiau car yw'r dull teithio mwyaf cyffredin at bob diben, ac yna cerdded ac olwynio. Roedd cerdded ac olwynio yn llai cyffredin ar gyfer cymudo (7.6%) nag at ddibenion eraill.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Dibenion y daith

Nodyn: Cyfrifwyd canrannau heb gynnwys ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" wrth ateb beth oedd pwrpas eu taith neu'r dull teithio a ddefnyddiwyd ganddynt.

# Teithiau car

- Defnyddiwyd car fel y prif ddull teithio ar gyfer 73.6% o deithiau, sy'n cyfateb i 463.2 o deithiau fesul person y flwyddyn. Roedd hyn yn cyfateb i 8,758.2km fesul person, y flwyddyn.
- Roedd gan 77.0% o'r ymatebwyr drwydded yrru lawn.

## Gyrrwr a theithiwr

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn teithio mewn car a oeddent yn yrrwr neu'n deithiwr. Dewisodd canran fach o ymatebwyr "Ddim yn gwybod" neu "Gwell gen i beidio â dweud" ac mae'r rhain wedi'u heithrio. Mae hyn yn golygu nad yw cyfansymiau'r gyrrwr a'r teithiwr o reidrwydd yn cyfateb i gyfansymiau'r car (naill ai fel y gyrrwr neu'r teithiwr).

- Roedd 81.2% o deithiau car yr ymatebwyr yn deithiau a wnaed fel y gyrrwr. Mae cyfanswm y pellter a deithiwyd fesul person y flwyddyn yn adlewyrchu hyn, gyda chyfanswm y pellter fel gyrrwr (6,814.1km) yn llawer mwy na'r pellter fel teithiwr (1,942.6km).

- Roedd teithiau teithwyr fel arfer ychydig yn hirach, gyda'r daith gyfartalog i deithwyr yn 22.3km o hyd o'i gymharu â 18.1km fel gyrrwr.


## Math o danwydd car

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn teithio mewn car sut roedd y car yn cael ei danio. Dewisodd canran fach o ymatebwyr "Ddim yn gwybod" neu "Gwell gen i beidio â dweud" ac mae'r rhain wedi'u heithrio. Mae hyn yn golygu nad yw cyfanswm y mathau o danwydd o reidrwydd yn cyfateb i gyfanswm y teithiau mewn car (naill ai fel y gyrrwr neu'r teithiwr).

- Y math mwyaf cyffredin o danwydd oedd petrol, a ddefnyddiwyd mewn 51.4% o deithiau car. Defnyddiwyd diesel mewn 35.9% o deithiau car. Gwnaed 5.9% o deithiau mewn car hybrid, a 4.7% o deithiau mewn cerbyd trydan.

## Cyfran y teithiau car a'r pellter a deithiwyd yn ôl math o danwydd car

Ffigur 8: Cyfran y teithiau car fesul person y flwyddyn a'r pellter a deithiwyd fesul person y flwyddyn yn ôl math o danwydd car, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 8: Petrol a diesel yw'r mathau o danwydd a ddefnyddir amlaf o ran cyfran cyfanswm y teithiau a chyfran y pellter a deithiwyd.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Cyfran y prif ddull ac Pellteroedd teithio

Nodyn: Nid yw hyn yn cynnwys canran yr ymatebwyr a ddewisodd "Arall", "Ddim yn gwybod" neu "Gwell gen i beidio â dweud" ar gyfer eu math o danwydd car. Felly, efallai na fydd y cyfansymiau'n cyrraedd 100%.


# Patrymau teithio gwledig a threfol

Caiff lleoliadau eu dosbarthu fel lleoliadau gwledig neu drefol yn seiliedig ar Ddosbarthiad Gwledig-Trefol Cyfrifiad 2021. Ardaloedd trefol yw aneddiadau â phoblogaethau o 10,000 neu fwy. Ardaloedd gwledig yw pobman arall. Mae dosbarthiad gwledig-trefol yn seiliedig ar ble mae'r ymatebydd yn byw, yn hytrach na ble digwyddodd y daith.

- Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn teithio ychydig yn fwy, gan wneud 635.2 o deithiau fesul person y flwyddyn, o'i gymharu â 615.0 o deithiau fesul person y flwyddyn mewn ardaloedd gwledig.
- Mae teithiau gan drigolion ardaloedd gwledig hefyd fel arfer yn hirach. Roedd hyd cyfartalog y daith yn 20.5km, o'i gymharu â 14.9km mewn ardaloedd trefol.
- Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn gwneud mwy o deithiau mewn car (80.2%) a llai o deithiau drwy deithio llesol (14.2%) a thrafnidiaeth gyhoeddus (4.9%) na'u cymheiriaid trefol.
- Fodd bynnag, mae'r rhesymau pam mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol a gwledig yn teithio yn debyg. Dychwelyd adref oedd y pwrpas mwyaf poblogaidd ymhlith trigolion trefol (28.9%) a gwledig (28.3%), ac yna cymudo (20.6% trefol, 22.4% gwledig) a siopa (14.7% trefol, 12.4% gwledig).

## Cyfran y prif ddull yn ôl statws gwledig-trefol

Ffigur 9: Cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl cyfran y prif ddull teithio a statws gwledig-trefol, Cymru, 2025




Disgrifiad ar gyfer Ffigur 9: Mae trigolion gwledig yn gwneud mwy o deithiau fel gyrwyr car na thrigolion ardaloedd trefol, gyda chyfran gyfatebol is o deithiau trwy gerdded ac olwynio.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Cyfran y prif ddull

Nodyn: Cyfrifwyd canrannau heb gynnwys ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" wrth ateb pa ddull teithio a ddefnyddiwyd ganddynt.


# Amddifadedd cymharol

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025 yn rhestru amddifadedd cymharol ardaloedd bach yng Nghymru. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae safleoedd MALIC wedi'u grwpio'n gwintelau (pum grŵp o'r un maint). Mae gan Gwintel 1 (C1) yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae gan Gwintel 5 (C5) yr 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut mae MALIC wedi diffinio amddifadedd ar wefan Llywodraeth Cymru.

- Mae pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn gwneud 519.3 o deithiau fesul person y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae hyn yn is na chyfartaledd cyffredinol Cymru o 629.1. Mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn gwneud 709.7 o deithiau fesul person y flwyddyn.
- Ychydig o wahaniaeth oedd yng nghyfartaledd hyd taith yn ôl amddifadedd cymharol. Y pellter cyfartalog a deithiwyd fesul taith ymhlith y grŵp mwyaf amddifad oedd 15.0km, tra bod gan y grŵp lleiaf amddifad hyd taith gyfartalog o 14.7km. I drigolion yn C4, y pellter cyfartalog a deithiwyd oedd 18.3km.
- Mae unigolion yn C1 yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer 8.0% o'u teithiau o'i gymharu â 4.9% o deithiau yn C5.
- Roedd dulliau teithio llesol yn fwy cyffredin ymhlith pobl sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (20.3% o deithiau) o'i gymharu â'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (17.8% o deithiau).
- Roedd cyfraddau cerdded ac olwynio yn ddigon tebyg rhwng unigolion a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig (16.8% yn C1, 16.7% yn C5). Fodd bynnag, cwblhaodd trigolion yr ardaloedd lleiaf difreintiedig fwy o deithiau ar feic (3.5%) na thrigolion yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (1.1%).
- Teithiau mewn car, naill ai fel gyrrwr neu deithiwr, oedd y dull teithio mwyaf cyffredin i drigolion yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (71.2%) a lleiaf difreintiedig (73.8%).

### Cyfanswm y pellter a deithiwyd fesul person y flwyddyn yn ôl cwintelau MALIC (km)

Ffigur 10: Cyfanswm y pellter a deithiwyd fesul person y flwyddyn yn ôl cwintelau MALIC 2025, Cymru, 2025 (km)




Disgrifiad o Ffigur 10: Mae trigolion y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn teithio'r pellter lleiaf fesul person y flwyddyn (7,779.8km). Mewn cymhariaeth, mae trigolion yn C4 yn teithio 12,594.5km fesul person y flwyddyn ar gyfartaledd.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Pellteroedd teithio

# Pobl sy'n gweithio o bell a phobl nad ydynt yn gweithio o bell


Ystyriwyd ymatebydd yn rhywun sy'n gweithio o bell os oeddent mewn cyflogaeth neu ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu neu absenoldeb rhiant a rennir ac fel arfer yn gweithio o bell. Nododd 20.7% o'r ymatebwyr a oedd mewn cyflogaeth eu bod fel arfer yn gweithio o bell.

- Roedd gwahaniaethau bach yn nifer y teithiau a gwblhawyd gan y rhai sy'n gweithio o bell a'r rhai nad ydynt yn gweithio o bell. Gwnaeth y bobl sy'n gweithio o bell 690.1 o deithiau fesul person y flwyddyn, o'i gymharu â 704.2 o deithiau ar gyfer pobl nad oeddent yn gweithio o bell.

- Roedd pobl sy'n gweithio o bell yn teithio 11,540.1km y flwyddyn ar gyfartaledd, o'i gymharu â 13,158.3km ar gyfer pobl nad ydynt yn gweithio o bell. Roedd hyn yn cyfateb i hyd taith gyfartalog o 16.7km ar gyfer pobl sy'n gweithio o bell ac 18.7km ar gyfer pobl nad ydynt yn gweithio o bell.
- Roedd gwahaniaethau mawr yn y dulliau a ddefnyddiwyd rhwng pobl sy'n gweithio o bell a phobl nad ydynt yn gweithio o bell. Defnyddiodd pobl sy'n gweithio o bell ddulliau teithio llesol ar gyfer 24.5% o deithiau a thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer 3.4% o deithiau. Gwnaeth pobl nad ydynt yn gweithio o bell 13.6% o deithiau gan ddefnyddio dulliau teithio llesol, a 4.7% o deithiau gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- Defnyddiwyd y car, naill ai fel y gyrrwr neu'r teithiwr, fel y prif ddull teithio ar gyfer 71.6% o deithiau gan bobl sy'n gweithio o bell, ac 80.9% o'r deithiau gan bobl nad ydynt yn gweithio o bell.
- Gwnaeth pobl nad ydynt yn gweithio o bell fwy o deithiau aml-ddull, gyda 10.1% o deithiau'n defnyddio dau ddull teithio neu fwy. Roedd 7.6% o deithiau gan bobl sy'n gweithio o bell yn aml-ddull. Mae'r ddau grŵp o weithwyr yn defnyddio teithiau aml-ddull yn llai na chyfartaledd Cymru o 10.8%.

## Cyfran y prif ddull teithio gan bobl sy'n gweithio o bell a phobl nad ydynt yn gweithio o bell

Ffigur 11: Cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl y prif ddull, yn ôl statws gweithio o bell, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 11: Teithiau fel gyrrwr car yw'r dull mwyaf cyffredin ar gyfer pobl sy'n gweithio o bell a phobl nad ydynt yn gweithio o bell, er eu bod yn gymharol lai cyffredin ar gyfer pobl sy'n gweithio o bell.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Cyfran y prif ddull

Nodyn: Cyfrifwyd canrannau heb gynnwys ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" wrth ateb pa ddull teithio a ddefnyddiwyd ganddynt.

# Pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl


Mae ymatebwyr wedi cael eu hadnabod fel pobl anabl neu bobl nad ydynt yn anabl yn ôl Deddf Cydraddoldeb (2010).

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut y penderfynwyd hyn ar wefan y Swyddogaeth Dadansoddi.

- Mae ymddygiad teithio yn amrywio yn ôl statws anabledd. Gwnaeth pobl nad ydynt yn anabl fwy o deithiau (680.7 fesul person y flwyddyn) na'r rhai sy'n anabl (556.3 fesul person y flwyddyn).
- Roedd y pellter teithio cyfartalog hefyd yn fyrrach i bobl anabl. Roedd hyd eu taith gyfartalog yn 13.3km, o'i gymharu â 17.5km i bobl nad ydynt yn anabl.
- Roedd y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn debyg ar gyfer y ddau grŵp. Gwnaed 5.9% o deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus gan bobl anabl a 5.3% o deithiau gan bobl nad ydynt yn anabl.
- Gwnaeth pobl anabl 24.2% o deithiau gan ddefnyddio dulliau teithio llesol. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 19.6%, ac yn uwch na'r 18.4% o deithiau a wnaed drwy ddefnyddio dulliau teithio llesol gan bobl nad ydynt yn anabl.
- Cwblhaodd y ddau grŵp nifer tebyg o deithiau aml-ddull. Defnyddiodd 10.7% o deithiau a wnaed gan bobl anabl ddau ddull neu fwy, o'i gymharu â 10.4% ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl.
- Roedd dibenion y teithiau a gofnodwyd gan bobl anabl yn wahanol i ddibenion teithiau pobl nad oeddent yn anabl. Dychwelyd adref oedd y diben teithio mwyaf cyffredin ar gyfer y ddau grŵp (27.6% o deithiau ar gyfer pobl nad oeddent yn anabl, 33.3% ar gyfer pobl anabl). Fodd bynnag, roedd teithiau i'r gwaith, yr ail ddiben mwyaf poblogaidd ar gyfer pobl nad oeddent yn anabl (24.2% o deithiau), yn llawer llai cyffredin, wrth iddynt gael eu defnyddio mewn dim ond 10.4% o deithiau ymhlith pobl anabl.
- Roedd teithiau siopa (18.0%) a chymdeithasu neu adloniant (13.4%) hefyd yn fwy cyffredin i bobl anabl na phobl nad oeddent yn anabl (12.8% ac 11.5% yn y drefn honno).

## Dibenion y daith yn ôl statws anabledd

Ffigur 12: Cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl diben y daith a statws anabledd, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 12: Amlder teithiau cymudo yw'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y rhai sy'n anabl a'r rhai nad ydynt yn anabl.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Dibenion y daith

Nodyn: Cyfrifwyd canrannau heb gynnwys ymatebwyr a ddewisodd “Ddim yn gwybod” neu “Mae'n well gen i beidio â dweud” wrth ateb beth oedd pwrpas eu taith.